



Asesiad o Ddatganiad Amgylcheddol

gan Richard James Bsc (Anrhydedd) Msc
MRTPI

Arolygydd a benodwyd gan Weinidogion
Cymru

Dyddiad: 14.05.2026

Assessment of Environmental Statement

by Richard James Bsc (Hons) Msc MRTPI

an Inspector appointed by the Welsh Ministers

Date: 14.05.2026

Cyf: CAS-03018-G7G6H7

Cyfeiriad y safle: Parc Ynni Mynydd Ty-talwyn, sydd wedi'i leoli tua 5 cilomedr i'r gogledd-orllewin o Ben-y-bont ar Ogwr, 4.5 cilomedr i'r gogledd-ddwyrain o'r Pîl a 2 gilomedr i'r gorllewin o Don-du.

- Mae'r Datganiad Amgylcheddol sy'n destun yr asesiad hwn wedi'i gyflwyno mewn perthynas â'r achos uchod, yn unol â Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (fel y'i diwygiwyd).
- Gwneir y cais gan Galileo 03 Limited.

Cyflwyniad

- Paratowyd Datganiad Amgylcheddol (DA) i gefnogi cais am Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS) a gyflwynwyd i Weinidogion Cymru i'w benderfynu. Mae'r datblygiad arfaethedig yn ddatblygiad AEA o fewn ystyr y rheoliadau. Fel y'i cyflwynwyd yn wreiddiol, canfuwyd bod y DA yn anghyflawn am y rhesymau a nodwyd yn fy adroddiad, dyddiedig 26 Chwefror 2026 (yr adroddiad blaenorol).
- Canfuwyd bod y DA yn anfoddhaol o ran ei ddisgrifiad o'r datblygiad, yr agweddau ar yr amgylchedd y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arnynt ac effeithiau sylweddol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd. I gwblhau'r DA yn foddhaol, hysbyswyd yr ymgeisydd y dylai fynd i'r afael â nifer o ofynion a restrwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad blaenorol.
- Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno rhagor o wybodaeth ar 24 Ebrill 2026 er mwyn ymateb i ofynion Atodiad 1.

Datblygiad arfaethedig

- Mae'r datblygiad arfaethedig fel y'i disgrifiwyd yn yr adroddiad blaenorol, i raddau helaeth. Fodd bynnag, erbyn hyn, cynigir lleihau'r ardal a ddynodwyd i greu neu well cynefin, o 94.43ha i 93.1ha. Caiff hyn ei ddisgrifio ymhellach yn yr adran 'Disgrifiad o'r Datblygiad' yn yr adroddiad hwn.

Cyflawnrwydd Datganiadau Amgylcheddol

5. Nod Datganiad Amgylcheddol (DA) yw darparu adroddiad systematig a gwrthrychol ar yr effeithiau amgylcheddol arwyddocaol sy'n debygol o ddeillio o'r datblygiad arfaethedig, gan gynnwys gwybodaeth ddigonol i wirio'r casgliadau a nodi ffynhonnell y wybodaeth a ddarperir. Mae Rheoliad 17 ac Atodlen 4 Rheoliadau 2017 yn nodi'r wybodaeth sydd i'w chynnwys mewn DA. Mae fy asesiad o gyflawnrwydd wedi'i seilio ar y gofynion hyn. Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â'r adroddiad blaenorol.

Disgrifiad o'r Datblygiad

6. Erbyn hyn, mae'r cynnig yn cynnwys llai o ardaloedd glaswelltir o fewn y safle sydd i'w gwella a'u rheoli er budd adar sy'n nythu ar y ddaear o 13.55ha i 12.22ha. Mae hyn wedi cynnwys cael gwared ar lain ganolog o dir gerllaw Ffordd-y-Gyfraith. Mae tir cyfnewid wedi'i gynnwys mewn llain sydd hefyd wedi'i chlustnodi ar gyfer lliniaru a gwella ffyngau. Caiff y newid hwn ei adlewyrchu yn y dogfennau sydd wedi'u diweddarau, lle bo'n briodol.
7. Diweddarwyd Pennod 2 y DA *'Disgrifiad o'r Datblygiad Arfaethedig'*, Ffigurau 2.12 ab, ac Atodiad 2.1 *'Cynllun Rheoli Amgylcheddol Gwaith Adeiladu Amlinellol'* i gadarnhau y byddai gan y tair amgaefa adeiladu wyneb cerrig cywasgedig. Darperir manylion ychwanegol am eu trefniadau ar gyfer draenio dŵr wyneb a'u rheolaeth.
8. Byddai'r Prif Gontractwr yn penderfynu ar nifer y toiledau a'r tanciau septig cysylltiedig. Fodd bynnag, diweddarwyd Atodiad 2.1 i gadarnhau y byddai elifion toiled yn cael eu diogelu mewn tanciau septig uwchben y ddaear, i'w lleoli yn yr ardal 'Cyfleusterau Lles' ar gyfer pob amgaefa adeiladu. Byddai'r rhain yn cael eu gwacáu a'r elifion yn cael eu hallforio i fwrdd o'r safle, yn hytrach na'u gollwng o fewn y safle.
9. Erbyn hyn, darperir lleoliad a maint croesfannau nwy a llinellau trydan yn Ffigur 2.18 newydd, *'Croesfannau Cyfleustodau a Chyrsiau Dŵr'*. Mae opsiynau eraill ar gyfer diogelu seilwaith llinellau uwchben hefyd wedi'u cynnwys ym Mhennod 2 y DA, sydd wedi'i diweddarau, gan gynnwys codi polion a gollwng toriad cylched dros dro, yn ogystal â dargyfeirio. Fodd bynnag, ni ddarperir unrhyw wybodaeth bellach am leoliadau na nifer y croesfannau cyrsiau dŵr bach disgwyltiedig sy'n llai na 2m o led, y cyfeirir atynt ym mharagraff 2.5.67 ym Mhennod 2 y DA. O ystyried agosrwydd rhai elfennau o'r datblygiad arfaethedig at gyrsiau dŵr a nodwyd yn Ffigurau 6.1-6.5 (gan gynnwys y ffigurau hynny) a phresenoldeb dynodiadau amgylcheddol, fel y Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a nodwyd yn yr ardal, dylid darparu nifer a lleoliad amcangyfrifedig croesfannau cyrsiau dŵr llai, ynghyd ag asesiad llawn o arwyddocâd effeithiau amgylcheddol y gwaith hwn. Fel arall, mae angen esboniad o pam yr ystyrir bod lefel bresennol y wybodaeth yn cynnig sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer ystyried yr effeithiau amgylcheddol.
10. Fel y cyfryw, nid yw'r disgrifiad o'r datblygiad yn foddhaol.

Disgrifiad o'r dewisiadau amgen rhesymol

11. Mae adleoli'r ardal lliniaru ecolegol ar gyfer adar oherwydd trafodaeth â pherchennog y tir a chaiff ei adlewyrchu yn y dyluniad diweddaraf sy'n cael ei ddisgrifio ym Mhennod 3 y DA *'Cyd-destun Amgylcheddol a Dewisiadau Amgen Rhesymol a Ystyriwyd'* ac sydd i'w weld yn Ffigur 3.2 *'Iteriadau Dylunio'*. Dewiswyd y safle newydd oherwydd ei dirwedd debyg, math addas o gynefin a'r agosrwydd at safleoedd nythu presennol cornicyllod.
12. Mae'r ystyriaeth o'r prif ddewisiadau amgen yn foddhaol o hyd.

Disgrifiad o'r agweddau ar yr amgylchedd y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arnynt

13. Diweddarwyd Pennod 10 y DA '*Ecoleg Ddaearol*' i gadarnhau pryd y cynhaliwyd Asesiadau Clwydo Rhagarweiniol ac Arolygon Gweithgarwch Ystlumod. Mae'r ymgeisydd yn esbonio ym Mhenodau 10 ac 11 '*Adareg*' pam, yn ei farn ef, yr ystyrir bod yr arolygon yn cynnig tystiolaeth gadarn ar gyfer amodau sylfaenol y safle, gan nodi, ymhlith pethau eraill, nad oes unrhyw newid sylweddol i'r math o gynefin a'r cyflwr y tu mewn i'r safle.
14. Erbyn hyn, mae'r agweddau ar yr amgylchedd y mae'n debygol y bydd effaith arwyddocaol arnynt wedi'u disgrifio'n ddigonol.

Methodoleg Asesu

15. Mae methodoleg yr AEA wedi'i disgrifio'n glir yn y DA o hyd.

Disgrifiad o effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad ar yr amgylchedd

16. Darperir asesiad lefel uchel o effeithiau adlewyrchu a disgleirio ar hawliau tramwy cyhoeddus yn Atodiad 4.6 '*Astudiaeth Adlewyrchu a Disgleirio Ffotofoltaïig Solar*', er mwyn ymateb i ofynion Cyfarwyddyd Cwmpasu ID.9, dyddiedig 11 Ebrill 2024. Daw i'r casgliad na fyddai unrhyw effeithiau arwyddocaol, yn hyn o beth, oherwydd sensitifrwydd isel a bennwyd i dderbynyddion a maint isel yr effeithiau a achosir.
17. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd a nodwyd ynghylch croesfannau cyrsiau dŵr bach, nid yw effeithiau arwyddocaol y datblygiad ar yr amgylchedd wedi'u hasesu na'u disgrifio'n ddigonol o hyd.

Mesurau atal a/neu liniaru

18. Mae'r mesurau lliniaru a ddisgrifir yn y DA yn ddigonol o hyd.

Arwyddion o unrhyw anawsterau wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol

19. Mae'r cyfyngiadau a'r anawsterau a wynebwyd wedi'u disgrifio'n ddigonol o hyd.

Darparu Crynodeb Annhechnegol

20. Darparwyd crynodeb annhechnegol wedi'i ddiweddarau ac mae'r wybodaeth ynddo'n ddigonol ar gyfer y DA, fel y'i lluniwyd.

Rhestr Gyfeirnod

21. Mae'r ffynonellau a ddefnyddiwyd i lywio'r DA wedi'u cyfeirnodu'n briodol ym mhenodau ac atodiadau'r DA, lle bo hynny'n briodol.

Casgliadau Cyffredinol

22. Deuaf i'r casgliad bod rhaid ceisio rhagor o wybodaeth (a nodir yn Atodiad 1) er mwyn mynd i'r afael â diffygion a nodir uchod yn y Datganiad Amgylcheddol, a gyflwynwyd gan Galileo 03 Limited ar 27 Tachwedd 2025 a 24 Ebrill 2026.

Richard James

Arolygydd

Atodiad 1

Gofynnaf yn ffurfiol drwy hyn am ragor o wybodaeth o dan Reoliad 24 Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017 (fel y'u diwygiwyd) er mwyn i'r Datganiad Amgylcheddol roi, i'r sawl sy'n penderfynu, casgliad rhesymegol ar effeithiau arwyddocaol tebygol y datblygiad a ddisgrifir yn y cais.

Mae'r wybodaeth sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yn y Datganiad Amgylcheddol fel a ganlyn:

- Nifer a lleoliad amcangyfrifedig croesfannau cyrsiau dŵr llai, ynghyd ag asesiad llawn o arwyddocâd effeithiau amgylcheddol y gwaith hwn. Fel arall, mae angen esboniad o pam yr ystyrir bod lefel bresennol y wybodaeth yn cynnig sylfaen dystiolaeth gadarn ar gyfer ystyried yr effeithiau amgylcheddol.